



# Crynodeb Ymchwil Tai

## Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol ym Maes Tai yng Nghymru

### Cyflwyniad

Elfen allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer tai cymdeithasol – 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Tai yng Nghymru' – yw ansawdd ac argaeledd addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes tai. Er mwyn gweithredu ar hyn mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n astudio Diploma/MSc ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd mewn Tai. Mae'r ysgoloriaeth yn talu am 50% o gostau myfyrwyr amser llawn gyda'r gweddill yn cael ei dalu gan gyflogwyr.

Yn haf 2003, comisiynwyd ECOTEC Research and Consulting Limited, gan y Cynulliad, i adolygu'r cynllun ysgoloriaeth, a hefyd anghenion ehangach gweithwyr proffesiynol yn y Gymuned Dai yng Nghymru o ran addysg a hyfforddiant. Amcanion yr astudiaeth oedd:

- Dynodi anghenion awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) o ran addysg a hyfforddiant proffesiynol ym myd tai;
- Asesu darpariaeth addysg a hyfforddiant tai yng Nghymru, gan gynnwys adolygiad penodol ar gynllun ysgoloriaeth Prifysgol Caerdydd;
- Nodi'r graddau y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyllid y Cynulliad yn diwallu anghenion landlordiaid cymdeithasol;
- Asesu'r cyfleoedd a'r dewisiadau i alluogi myfyrwyr duon a lleiafrifoedd ethnig (BME) a gweithwyr proffesiynol ym myd tai i ymgymryd ag addysg ac hyfforddiant; ac
- Argymhell dewisiadau o ran cyllido gan y Cynulliad yn y dyfodol.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys arolwg trwy'r post, ymgynghoriadau gyda darparwyr addysg a chyrrff eraill sy'n ymwneud ag addysg tai yng Nghymru, grŵp ffocws BME a grwpiau ffocws o fyfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

## Prif gasgliadau

### Gofynion Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai

Mewn arolwg trwy'r post tynnodd Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai sylw at y materion allweddol canlynol:

Mae ymarferwyr tai yn gwasanaethu rhai o'r bobl fwyaf anghenus a hawdd eu niweidio mewn cymdeithas ac o ganlyniad mae ganddynt rôl gymdeithasol hanfodol. Mae'n dilyn o hyn bod y rhai sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol ym myd tai trwy eu haddysgu a'u hyfforddi hefyd yn chwarae rôl hanfodol a pharhaus.

Yn sgil datblygiadau mawr mewn polisi ac arferion tai dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r byd tai cymdeithasol yn profi amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Er mwyn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ymarferwyr iddynt fedru wynebu'r sialensiau hyn, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg a hyfforddiant ddiweddarau a diwygio deunyddiau dysgu a'u dulliau dysgu'n gyson.

Nid yw landlordiaid yn rhagweld unrhyw dwf sylweddol yn y nifer o weithwyr proffesiynol tai y bydd arnynt eu hangen dros y blynyddoedd nesaf. Ond maent yn bryderus bod dim digon o weithwyr proffesiynol o safon uchel yn dod i mewn i'r proffesiwn. Yn gyffredinol maent yn fodlon ar yr ystod ac ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael, mae barn gyffredin hefyd y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar rai agweddau allweddol, gan gynnwys TG a sgiliau rheoli yn ogystal â chynllunio strategol a datblygiad proffesiynol parhaus (CPD).

Nid oes gan dai fel gyrfa ddelwedd atyniadol iawn o fewn y proffesiwn nac o'r

tu allan. Gwelir bod gan addysg a hyfforddiant proffesiynol rôl allweddol i'w chwarae wrth ymdrin â'r broblem hon. Yn y cyswllt hwn codwyd cwestiwn arwyddocaol iawn, sef a ddylai'r sector gael ei phroffesiynoli. Hynny yw a ddylid gweld goruchwyliaeth broffesiynol gaethach ar weithwyr proffesiynol ym maes tai.

Tanlinellodd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hefyd effeithiau datganoli ar y proffesiwn a'r agweddau penodol Cymreig ar bolisi sy'n graddol ddod i'r golwg. Mae hyn yn sylfaenol i'r gefnogaeth eang ar gyfer argaeledd addysg ôl-raddedig yng Nghymru a'r gallu a'r modd yn y wlad i ymchwilio i faterion tai sy'n unigryw Gymreig.

### Addysg a hyfforddiant tai yng Nghymru

Darganfu adolygiad o addysg a hyfforddiant proffesiynol tai, gan gynnwys cynllun ysgoloriaeth y Cynulliad yn arbennig, y canlynol:

Mae'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant ym maes tai yn eang. Amrywia'r cyrsiau sydd ar gael o seminarau undydd (CIH Cymru, Shelter Cymru ac eraill) a dysgu o bellter (Coleg Gwent) hyd at gyrsiau israddedig (UWIC, NEWI) a chysiau ôl-raddedig (Prifysgol Caerdydd). Mae gweithwyr tai proffesiynol hefyd yn manteisio ar gyrsiau cyffredinol fel rheoli ac arwain, cwrs MBA Caerdydd a graddau o sefydliadau yn Lloegr er enghraifft.

Tanlinellodd yr ymatebwyr i'r arolwg trwy'r post a'r rhai a gyfwelwyd bod rhagor o gyfleoedd addysg perthnasol yn Ne Cymru o'i gymharu â'r Canolbarth, Gogledd a'r Gorllewin. Mae'r pwynt hwn yn ddilys ar gyfer pob lefel o addysg a hyfforddiant, ond mae'r oblygiadau'n amrywio gan

ddibynnu ar ba mor agos yw canolfannau yn y De (Caerdydd ac UWIC) a Gogledd Cymru (NEWI).

Mae'r rhan fwyaf o broffesiynau'n cymryd agwedd lawer mwy caeth at reoleiddio eu haelodau. Mae'n anodd ym maes tai gan fod yr ymarferwyr yn dod i'w swyddi ar hyd llwybrau gwahanol, yn aml mae ganddynt gymhwyster ond nid oes raid iddynt fod yn aelod o gorff proffesiynol. Effeithir yn fawr ar ansawdd bywyd tenantiaid gan y modd y mae eu hachosion yn cael eu trin. Ond, mae swyddogion tai, yn wahanol i'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol eraill, yn cael eu goruchwyllo gan eu cyflogwyr ond nid ydynt yn dod dan oruchwyliaeth debyg gan y diwydiant.

Adolygwyd cynllun ysgoloriaeth Prifysgol Caerdydd fel rhan allweddol o'r astudiaeth. Mae'r cyrsiau DipOR ac MSC ym Mhrifysgol Caerdydd yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned tai ac maent wedi cyflawni canlyniadau positif iawn. Mae mwyafrif y cyn fyfyrwyr yn parhau yn y proffesiwn ac maent wedi cyrraedd swyddi o ddylanwad. Mae Prifysgol Caerdydd yn uchel ar y rhestr o Brifysgolion y DU ac mae'n amlwg bod y cyrsiau tai yn chwarae eu rhan i gadw'r safle hwn. Un agwedd a wnaeth argraff ar y tîm ymchwil oedd gweld, er mai argaeledd y grant oedd wedi denu myfyrwyr at y cwrs i gychwyn efallai, yn hytrach na diddordeb penodol mewn tai, eu bod wedi datblygu'n unigolion ymroddedig sy'n cael boddhad sylweddol o'u swyddi.

O ran dyfodol y cynllun ysgoloriaeth, mae tri mater yn codi. Yn gyntaf, mae cyswllt y cynllun gyda Chaerdydd yn golygu bod y dalgylch yn bennaf yn cynnwys De

Ddwyrain Cymru. Mae hyn yn creu ymdeimlad o 'annhegwch' ymhlith darpar fyfyrwyr o rannau eraill o Gymru a'r cyrff sy'n eu noddi. Tra bod yr ysgoloriaethau yn ddamcaniaethol ar gael iddynt, yn ymarferol gall fod yn anodd eu cymryd oherwydd bod y pellter o Gaerdydd yn ei gwneud yn anodd mynychu'r cyrsiau. O ganlyniad mae canfyddiad bod y De Ddwyrain yn cael gwell gwasanaeth na gweddill Cymru. Yn ail, dim ond astudiaethau ôl-raddedig y mae'r cynllun yn eu cefnogi, tra gallai fod yn addas cefnogi astudiaethau israddedig neu gyrsiau ar ffurfiau eraill mewn rhai achosion. Yn drydydd, mae potensial o gael rhaglenni ôl-raddedig sy'n cynnig olyniaeth o raglenni a chyrsiau israddedig (yn ymwneud â bylchau penodol mewn sgiliau) nad ydynt ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd.

Dylid nodi nad oes barn unfrydol ar y mater hwn o bell ffordd. Ond y mae rhai o fewn y proffesiwn, yn arbennig tu allan i Dde Ddwyrain Cymru, a fyddai'n croesawu newidiadau i'r cynllun ysgoloriaeth. Gellid gweld triniaeth fwy cyfartal yn ddaearyddol trwy gysylltu â sefydliadau addysgol eraill yng Nghymru, gan weithredu ar sail rhyddfrait neu ddysgu o bellter. Gellid datblygu dewisiadau datblygiad proffesiynol parhaus, yn yr un modd ag addysg ôl-raddedig mewn meysydd lle mae ymchwil wedi darganfod bwlch mewn sgiliau. Gall y cynllun ysgoloriaeth hefyd gael ei ymestyn i gynnwys dewisiadau israddedig. Byddai'n rhaid penderfynu ar ymarferoldeb pob un o'r dewisiadau hyn, y galw amdanynt yn ogystal â'r cyllid trwy drafod yn fanwl â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cynrychiolwyr gweithwyr a budd-ddeiliaid eraill.

### **Landlordiaid Cymdeithasol – anghenion sy'n cael eu diwallu a'r rhai nad ydynt**

Adroddodd landlordiaid eu bod yn gyffredinol yn fodlon ar ansawdd ac argaeledd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Sech hynny, wnaethant danlinellu meysydd lle mae lle i wella.

Ni all un cwrs tai unigol fyth ymdrin â holl anghenion sgiliau'r proffesiwn. Ond, mae'r astudiaeth wedi cynhyrchu tystiolaeth o fylchau mewn sgiliau y mae'n rhaid i'r sector yn ei gyfanrwydd ymdrin â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys arweinyddiaeth, rheolaeth, TG, cyllid, cynllunio busnes, sgiliau trin pobl ac ymrwymiad y gymuned. Mae hefyd materion penodol cyfredol, gan gynnwys trosglwyddo stoc, arallgyfeirio (cymysgedd o fathau o dai, perchenogaeth a daliadaeth) ac adfywio.

Mae'r dyfyniadau isod yn pwysleisio'r angen i wella'r ddarpariaeth yn y meysydd hyn.

*'Y pwnc llosg yw'r bwlch mewn sgiliau - yn arbennig ym meysydd **rheolaeth ariannol, marchnata a hyrwyddo, rheolaeth a chyfranogiad tenantiaid'** – Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan*

*'Mae gweithwyr tai dan bwysau i ymdrin â galw trwm ac efallai nad yw **sgiliau trin pobl** yn cael blaenoriaeth bob amser' – Shelter Cymru*

*'Mae CIH Cymru yn bryderus nad yw'r hyfforddiant presennol yn rhoi'r sgiliau iawn i'r myfyrwyr i gyflawni'r agenda presennol o **adfywio, trosglwyddo stoc, arall gyfeirio ac ati.**' CIH Cymru*

*'O ran bylchau mewn sgiliau, tanlinellwyd **ffyrdd o gael cymunedau i gymryd rhan a sgiliau trin pobl** yn gyffredinol. Gwelir bylchau eraill mewn **materion cymunedol a datblygiad cynaliadwy**' Housing Potential*

Nod cynllun Ysgoloriaeth Ôl-Raddedig Llywodraeth y Cynulliad yw hyrwyddo gweithwyr tai proffesiynol mwy medrus. Mae'r cynllun ysgoloriaeth presennol wedi cyflawni'r amcan hwn. Adlewyrchir hyn yn y nifer sylweddol o ymarferwyr tai sydd wedi cwblhau cwrs Diploma/MSc Prifysgol Caerdydd mewn Astudiaethau Tai ac sydd yn awr mewn swyddi cyfrifol ledled Cymru. Mae'n bwysig cydnabod hefyd y cyfraniad y mae grŵp tai Caerdydd wedi ei wneud at ddatblygiad polisi tai yng Nghymru ac i godi proffil y proffesiwn.

O ystyried bod y cynllun ysgoloriaeth wedi bod yn llwyddiannus, a, gan fod bodolaeth y cwrs ôl-raddedig a'r cyfleuster ymchwil yn ychwanegu at statws y proffesiwn, dylid bod yn ofalus wrth wneud unrhyw newidiadau. Ond, codwyd pryderon yn ystod yr astudiaeth am addasrwydd defnyddio cyllid yn unig ar gyfer y diben hwn ac awgrymwyd defnydd arall ar gyfer arian cyhoeddus. Yn ychwanegol, tra dadleuodd y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth dros y Cynulliad ehangu'r defnydd o'r ysgoloriaeth, nid yw'r cyllid grant - tua £94,000 y flwyddyn ar gyfer ffioedd a grantiau - yn fawr iawn. Llywodraeth y Cynulliad a'r proffesiwn ddylai wneud y penderfyniad terfynol ar newid y cynllun ysgoloriaeth. Ond wrth wneud newidiadau, dylid sicrhau na fyddant yn arwain at golli cyrsiau Caerdydd, oni bai bod tystiolaeth glir y bydd gwell patrwm o ddarpariaeth yn deillio o'r newid.

### *Poblogaethau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ac addysg tai*

Tra mai cyfran fechan iawn yw grwpiau BME o boblogaeth Cymru (tua 2 y cant), mae'r gyfran hon yn uwch yn ninasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Felly nid yw'n syndod nad oes gan hanner y landlordiaid a gymerodd ran yn yr arolwg staff BME, ac mae ychydig iawn o aelodau o'r gymuned BME sy'n cael eu cyflogi yn y sector tai.

Mae yna, serch hynny, gofyn statudol i roi ystyriaeth i anghenion y cymunedau BME, ac eto dangosodd yr arolwg trwy'r post lefel isel iawn o ymwybyddiaeth o faterion BME.

Yng ngoleuni hyn mae'n drawiadol bod aelodau'r grŵp ffocws BME wedi nodi y dylai swyddogion tai fod yn fwy sensitif i anghenion y boblogaeth BME. Yn ychwanegol, profiad tîm yr astudiaeth yw bod cysylltiad rhwng agweddau at faterion BME ac agweddau at amrywiaeth yn gyffredinol. Hynny yw, mae lefel isel o empathi tuag at anghenion penodol grwpiau BME yn tueddu i fynd law yn llaw â lefelau isel o empathi tuag at faterion amrywiaeth eraill fel oedran, rhyw ac anabledd. Gellid disgwyl felly i ymdrin â diffygion yn ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o faterion BME greu canlyniadau positif ar gyfer cleientiaid tai eraill a gweithwyr.


Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i ymdrin â materion yn ymwneud â grwpiau BME a thai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai BME yn ddogfen weithiol bwysig ar gyfer cyflawni'r amcan hwn ac mae'r mentrau Llwybrau a Llwybrau Plws wedi gweld rhai canlyniadau o ran annog aelodau o'r gymuned BME i gymryd at y maes tai fel proffesiwn. Ond

mae angen darparu amrywiaeth o lwybrau ar gyfer gweithwyr proffesiynol tai BME a chryfhau'r cysylltiadau â'r ddarpariaeth brif-ffrwd bresennol. Hefyd rhaid gwella ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion yn ymwneud â BME yn y gymuned tai yng Nghymru.

### *Argymhellion*

O ystyried yr ymchwil a wnaed, ynghyd â'r ystyriaethau a drafodir yn yr adroddiad, yr argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad yw:

- Sefydlu fforwm i Gymru gyfan i hwyluso rhagor o gydweithio rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant tai ac i hyrwyddo gwell dealltwriaeth rhwng darparwyr a chyflogwyr ym maes tai. Mae AWCHOP yn ymddangos fel lle da i gychwyn fforwm o'r fath, o ystyried ei brofiad a'i natur gynrychioliadol.
- Ystyried, gyda'r proffesiwn, ffyrdd o gyflawni rhagor o broffesiynoli'r sector tai yng Nghymru.
- Ystyried, gyda'r proffesiwn, ffyrdd y gellir ymdrin â'r bylchau mewn sgiliau a materion eraill a nodwyd yn ystod yr ymchwil. Os yn angenrheidiol, ystyried ehangu'r defnydd o gronfa'r ysgoloriaeth.

- 
- Ystyried, gyda'r Grŵp Adolygu Tai BME Cenedlaethol, ffyrdd y gellir rhoi rhagor o flaenoriaeth i addysg a hyfforddiant proffesiynol tai i bobl BME. Bydd hyn o gymorth i gynyddu cynrychiolaeth BME yn y sector tai ac yn ei dro yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau BME ac eraill.

- Ystyried, gyda'r proffesiwn, a ellid cynnig yr ysgoloriaeth i gyrff tai ar ffurf grant, y byddid yn rhaid gwneud cais amdano, ar ran yr ymgeisydd, i fynychu addysg a hyfforddiant cymwys yng Nghymru i gynnwys cyrsiau ôl-raddedig (neu ôl-broffesiynol) ac israddedig. Dylai Llywodraeth y Cynulliad lunio rhestr o ddewisiadau addysg cymwys, ar y cyd â'r gymuned tai, trwy fforwm y gallai AWCHOP neu CIH Cymru ei gydlynu.

Mae'r adroddiad [Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol ym Maes Tai yng Nghymru](#) a chopiau ychwanegol o'r crynodeb hwn ar gael oddi wrth:

Helen Wyatt  
Uned Ymchwil a Gwybodaeth  
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 20821718  
E-bost: [helen.wyatt@wales.gsi.gov.uk](mailto:helen.wyatt@wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan: [www.tai.cymru.gov.uk](http://www.tai.cymru.gov.uk)